Hen Golwyn Ardal 1 – nodiadau cyfarfodydd rhanddeiliaid a enwebwyd
Dydd Iau 26 Tachwedd 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgolion)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig y Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsyllwyr: Cyng. W. E. Jones
Cyng. R. S. Squire
Cyng. G. Jones
Cyng. B. Cossey
Cyng. C. Carlisle

1. Cyflwyniad

Rhoddodd DB gyflwyniad gan esbonio'r gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar gynnydd y cynllun hyd yma a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu. Nododd fod y ddwy ysgol wedi cael canlyniadau arolwg ardderchog ac fe'u llongyfarchodd ar hyn. Eglurodd nad yw tudalen 10 o'r ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu yn feirniadaeth o ysgolion iau a babanod ar wahân ac nad oedd yn golygu nad oedd yr ysgolion babanod ac iau yn cynnig y manteision hyn yn awr.

Sesiwn cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: A ydych wedi edrych ar awdurdodau eraill ble nad yw cyfuno wedi gweithio?
A: Rydym wedi edrych ar beth sydd wedi digwydd mewn awdurdodau eraill a dyna pam rydym yn ymgynghori ar bob cam o'r broses i sicrhau y dewisir y ffordd gywir ymlaen ar gyfer pob ardal.
C: Mae gan nifer o ysgolion sydd i gael adolygiad mewn 2-5 mlynedd nifer uchel o leoedd gwag ac nid ydynt yn addas i'r pwrpas. Pam nad yw'r rhain wedi eu cynnwys yn yr adolygiad dechreuol ac a ydynt o dan anfantais oherwydd hyn?
A: Bydd pob ysgol yn cael ei hystyried maes o law ond rydym wedi gorfod blaenoriaethu ac roedd gan yr ysgolion hyn yn yr ail gategori resymau ychwanegol.
C: Rydych yn gwneud cam a hwy trwy beidio â'u cynnwys yn yr adolygiad dechreuol ac yn caniatáu iddynt wneud ceisiadau am yr arian cyfalaf.
A: Mae materion yn yr ysgolion hynny sy'n mynd ymhellach na'r adeiladau'n unig. Os yw'r ysgolion hynny'n dod ymlaen a dweud bod ganddynt ddiddordeb mewn newid yn awr, yn sicr byddem yn eu hystyried.
S: A yw'r broses hon yn ymwneud â moderneiddio a gwella neu'n syml am arbed arian?

A: Mae'r ddau yn annatod i'w gilydd. Nid yw'n ymwneud ag arbedion ond mae angen i ni weithio o fewn y cyfyngiadau cyllidebol sydd gennym. Rydym yn derbyn eich sylwadau ac er bod 17 ardal ar gyfer adolygiad dechreuol nid yw'n golygu y bydd newid mewn 17 ardal. Mae'n ddull hyblyg, os nad yw unrhyw un o'r rhain eisiau newid ac y penderfynir peidio gwneud newidiadau yn yr ardaloedd hyn yna gallwn drafod yr ysgolion i'w hadolygu mewn 2-5 mlynedd yn gynharach.

S: Mae'r ysgolion hyn o dan adolygiad dechreuol felly mae'n golygu fod penderfyniad.

A: Mae penderfyniad i'w trafod yn ddechreuol ond nid yw hynny yn golygu y bydd unrhyw newid.

C: Pam ein bod ni o dan adolygiad dechreuol?

A: Oherwydd ein bod yn trafod cyfuno ysgolion babanod ac iau ym mhob ardal yn y sir. Angen bod yn gyson ym mhob ardal ac angen dangos ein bod wedi cynnal ymgynghoriad cadarn.

S: Mae'r ddwy ysgol yn gwasanaethu'r ysgol yn dda fel y maent. Peidiwch â newid rhywbeth sy'n gweithio.

S: Nid oes gennym broblem i drafod y posibilrwydd o gyfuno babanod ac iau ond ni ddylai manteision cyfuno fod wedi eu cyhoeddi yn y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu. Mae wedi gwneud i ni deimlo'n amheus ac fel dwy ysgol ar wahân rydym yn gweithio'n effeithlon iawn. Rydym yn cydweithio'n agos.

C: Hefyd nid ydym yn hoff o'r cysyniad o bennaeth ffederal ac mae cynnwys hyn mewn dogfennaeth flaenorol wedi codi amheuon.

A: Yn y ddogfennaeth flaenorol, roedd rhaid i ni nodi'r holl opsiynau posibl ar gyfer y dyfodol ym mhob ardal.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Trwy ddod i Hen Golwyn heddiw, nid oedd yn golygu fod y ddwy ysgol yn bendant yn mynd i gyfuno. Roedd pob ardal sydd ag ysgol fabanod ac iau yn cael eu trafod yn yr un modd. Roedd gan rai ardaloedd ddiddordeb mewn cyfuno. Cyfeiriodd at dudalen 10 y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu a dywedodd bod y ddwy ysgol yn cyflawni'r manteision hyn. Nid yw tudalen 10 yn feirniadaeth o'r ysgol a'r modd mae'n gweithredu nawr. Gall y modd mae wedi ei ysgrifennu ar dudalen 10 edrych fel petai cyfuno babanod ac iau yn strategaeth ond nid dyma'r achos ac ymddiheuriadau am hyn. Daeth y manteision a restrir o Dorfaen ac fe'u cymeradwywyd gan Weinidog Cymru fel rhestr o fanteision posibl. Yna rhoddodd DP restr o fanteision ar gyfer ysgolion babanod ac iau ar wahân:

- Ysgolion babanod ac iau yn canolbwyntio ar un cyfnod allweddol yn unig
- Staff yn yr ysgolion hyn yn canolbwyntio eu dysgu a'u haddysgu yn benodol ar gyfer ystod oed y disgyblion
- Staff yn arbenigo mewn un cyfnod allweddol ac yn cael cyfleoedd cyfnod allweddol penodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus
- Llwybrau gyrfa staff yn fwy penodol
- Rhoddir cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion babanod i dderbyn cyfrifoldebau
- Mae buarth chwarae ar wahân yn caniatáu mwy o gyfleoedd chwarae a datblygiad pendant

Eglurwyd y cyfrifir capasiti ysgol gan ddefnyddio fformiwla a ddarperir gan LICC yn seiliedig ar arwynebedd llawr yr ysgol. Os oedd dosbarth meithrin, ni

chynhwysir yr arwynebedd llawr hwn. O ran lleoedd gwag, dim ond disgyblion amser llawn a ystyrir yn y cyfrifiad hwn.

Cyfeiriwyd at ragamcanion disgyblion a sut y cyfrifir hyn - edrychwyd ar y derbyniadau ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf ac yna defnyddiwyd cyfartaledd i ragamcanu niferoedd disgyblion. Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd y rhagamcanion ar gyfer pob ysgol yn gywir o fewn 1%. Roedd rhagamcanion disgyblion hefyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Nodwyd rhagamcanion tai a dywedwyd os byddai adeiladu sylweddol mewn ardal o thua 2000 - 5000 o dai, byddwn yn gofyn i'r adeiladwr ddarparu ysgol newydd.

Cynhyrchwyd y rhestr 'addas i'r pwrpas' trwy adolygiad o Fwletinau Adeiladu a'r awgrymiadau a gafwyd yn y cyfarfodydd ymgynghori cychwynnol. Nid oedd y rhestr yn rhestr o bethau hanfodol ond os adeiladwyd ysgol newydd, byddai'n cynnwys yr holl agweddau hyn. Nodwyd fod y ddogfen yn gywir pan y'u hargraffwyd a byddai unrhyw newidiadau dilynol yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth ddrafft.

O ran buddsoddiad parhaus mewn adeiladau ysgol, os dyrannir arian cyfalaf ysgolion unfed ganrif ar hugain i ni ai peidio, byddai'n rhaid i ni fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion a darparu gwaith cynnal a chadw.

Nodwyd ein bod eisiau trafod y posibilrwydd o gyfuno babanod ac iau tra bod pot o arian ar gael i alluogi hyn i ddigwydd.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S= Sylw)

C: Yn ôl y rhestr o fanteision ysgolion a gyfunwyd, mae gostyngiad mewn plant ym mlwyddyn 3. O ble gawsoch yr wybodaeth hon gan nad wyf wedi clywed amdano?

A: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnal gwaith ar hyn ond rydym wedi ei asesu yn ein hysgolion ac nid yw'n digwydd.

C: Beth sydd ar goll yn ein hysgolion?

A: Nid oes llawer o gyfleusterau ar goll yn y ddwy ysgol. Rydych o dan adolygiad dechreuol gan fod gennych ysgolion babanod ac iau ar wahân. Os oes cyfle i gael arian ar gyfer ysgol newydd sbon, rhaid i ni ddod atoch a gofyn y cwestiwn hwn.

S: Nid wyf yn meddwl y dylai'r data fod wedi ei gyflwyno mewn dull 'un maint yn addas i bawb'. Beth am ganlyniadau adroddiadau Estyn?

A: Ni ellir cymharu'r rhain gan nad yw rhai ysgolion wedi cael arolwg am chwe blynedd. Hefyd ni ellir cymharu safonau addysgol oherwydd nifer y disgyblion yn yr ysgolion. Byddwn yn cynnal ymchwil pellach ar ôl dechrau llunio'r strategaeth ddrafft.

C: A yw LlCC yn cyflwyno'r strategaeth ysgolion unfed ganrif ar hugain i sicrhau fod ysgolion â safonau isel yn ne Cymru yn cyrraedd yr un safonau a ni? A oes gennym siawns o gael yr arian hwn pan fo problemau mwy mewn ardaloedd eraill?

A: Mae hynny'n bwynt da a dyna pam ein bod angen strategaeth gadarn er mwyn cael yr arian.

C: Beth fyddai cost adeiladu ysgol newydd sbon i 400 o ddisgyblion?

A: Amcan ffigwr fyddai £8-9 miliwn. Rydym yn ansicr ar hyn o bryd faint o arian y bydd LlCC yn ei ddyrannu.

S: Byddwn yn isel iawn ar y rhestr flaenoriaeth o ran cael arian ar gyfer ysgol newydd sbon, felly nid oes gwir bwrpas ei drafod. Nid dyma beth rydym ei eisiau beth bynnag.

Eglurodd GT y gweithdy. Eisiau gwybod 'Beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd?' a 'Beth allwn ei wella?'
Bydd popeth a ysgrifennir ar y papur yn cael eu nodi yn ogystal â'r nodiadau yma heno a'u gosod ar y rhyngrwyd. Hefyd gallwch barhau i gyflwyno eich adborth ar yr ymgynghoriad hyd 30 Tachwedd trwy TJB neu'r Gwasanaethau Addysg.

3. Adborth o'r gweithdy

<u>Beth sy'n gweithio'n dda?</u>

- Adeiladau yn addas i'r pwrpas. Nid yw adeiladau yn 'gwneud' ysgol – athrawon a staff cefnogi ymroddedig yn mynd y tu hwnt i'r 'norm'
- Ethos cadarnhaol
- Awyddus i groesawu prosiectau newydd - peilot cyfnod sylfaen. Dewiswyd athrawon i gynghori ysgolion eraill ar lefel lleol a chenedlaethol.
- Mae'r gostyngiad rhagamcanedig mewn niferoedd yn weddol fychan
- Ymwneud da a boddhad gan rieni
- Cefnogaeth gadarnhaol, effeithiol i'r ddwy ysgol gan lywodraethwyr ymroddedig
- Mae'r ddwy ysgol yn gweithio'n eithriadol o dda GYDA'I GILYDD.
- "Gadewch lonydd i ni"
- Felly ni fyddai pennaeth ffederal yn opsiwn ar gyfer y ddwy ysgol hyn.
- Mewn ysgol fawr a gyfunwyd gall y pennaeth fod yn llai agos atoch
- Arweinyddiaeth dda yn y ddwy ysgol
- Gwerth da am arian – cost fesul disgybl
- Darpariaeth ragorol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol (disgrifiwyd fel rhagorol mewn adroddiadau Estyn)
- Mae ysgolion llai, ar wahân yn canolbwyntio mwy ar ddisgyblion unigol
- Darpariaeth blynyddoedd cynnar yn rhagorol yn ôl Estyn
- Y ddwy ysgol yn boblogaidd – dim llawer o leoedd gwag
- Digon o adnoddau
- Addysgu Cymraeg ail iaith = da

- Cyfleusterau allweddol coll bellach wedi eu trin – ystafell TGCh, man gweithio staff

- Disgyblion o du allan i'r dalgylch yn mynychu oherwydd safonau ardderchog yn TGJ a HG

- Cysylltiadau cryf rhwng y babanod a'r iau - athrawon, rhannu cyfleusterau, llywodraethwyr, rhaglenni trosiannol, penaethiaid, data.

- Dilyniant yn barhaus – dim gostyngiad

- Diwedd cyfnod allweddol yn y ddwy ysgol – uwch na chyfartaledd clwstwr, sirol a chenedlaethol

- Yn ogystal â dysgu ffurfiol mae disgyblion yn elwa o bwyslais ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol - gofal bugeiliol da

- Cysylltiadau cymunedol da – cefnogir gan leoliadau yng nghalon pentref Hen Golwyn

- Mae'r plant yn hapus, yn awyddus i ddod i'r ysgol

- Mae athrawon yn arbenigwyr yn eu grwpiau oedran perthnasol

- Ysgolion babanod/iau ar wahân yn caniatáu i blant ddatblygu annibyniaeth a chymryd cyfrifoldebau (i deimlo fel yr hynaf yn eu hysgol)

- Cyswllt – staff, llywodraethwyr, rheolwyr (rhwng y ddwy ysgol)

- Trosiant

- Rhannu adnoddau – babanod yn defnyddio'r ystafell TGCh iau

- Cynhyrchu plant hapus, gofal bugeiliol da. Pwyslais ar ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn ogystal ag anghenion dysgu

- Addysgu a dysgu rhagorol (adroddiad arolwg Tachwedd 2008)

- Cysylltiadau a chefnogaeth gymunedol wych

- Ystod dda o weithgareddau allgyrsiol - cefnogir a chynhelir y rhain gan aelodau o'r gymdeithas leol

- Canlyniadau diwedd cyfnod allweddol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol

<u>Beth ellir ei wella?</u>

(y ddwy ysgol)

- Adnodd bob tywydd

- Clwb brecwast os yw'n bosib
- Gwell parcio
- Adeiladau / adnodd a chyswllt cymunedol h.y. cyswllt sgowtiaid, canolfan gymunedol newydd
- Gwella'r maes chwarae yn T Gwynn
- Gorffen ail osod ffenestri yn Tŷ Gwynn
- Dynes/dyn lolipop / croesfan sebra
- Lleihau cyflymder ceir i 20mya ger ysgolion.

<u>Beth ellir ei wella?</u>

(Ysgol Hen Golwyn)

- Toiledau bechgyn
- Ffenestri
- Datblygu cae Minafon

4. Sesiwn cwestiynau ac ateb terfynol (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

C: A oes tir yn yr ardal a ellir ei ddefnyddio i adeiladu ysgol newydd.
Atebodd y Cynghorydd Cossey: oes mae tir ar gael yn Hen Golwyn ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu y byddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ysgol newydd.
C: A allwn fynegi nad ydym eisiau symud ymlaen a'n bod yn hapus fel rydym?
A: Gallwch, rydym yn gwybod fod y cyfarfod hwn o randdeiliaid yn nodi nad oes diddordeb mewn cyfuno'r ddwy ysgol hyn.
C: Nid ydym eisiau 'UNRHYW NEWID'
A: Wedi clywed eich neges yn glir. Eglurder ynglŷn â beth rydych ei eisiau. Cafwyd ymateb gwahanol mewn ardaloedd eraill. Rhaid i ni wneud rhai argymhellion anodd a chyflwyno'r rhain i'r Cabinet. Rydym yn sicr yn cymryd sylw o'ch neges o ddim newid.
C: Nid ydym ychwaith eisiau pennaeth ffederal, gwell gennym y sylw pendant y gall dau bennaeth ei ddarparu.
A: Deall hynny hefyd, ond rhaid derbyn nad oes gennym lu o staff yn dymuno bod yn benaethiaid a phan fydd newidiadau yn y dyfodol h.y. ymddeoliad, rhaid ystyried hyn yn ofalus. Er ni fydd hyn yn digwydd yn yr ardal hon.
C: Mae gennym bobl a allai ddod yn benaethiaid.
A: Cytuno ac mae angen i lywodraethwyr wneud rhywfaint o gynllunio o ran olyniaeth.
C: Beth os yw'r Cabinet a chynghorwyr yn mynd yn erbyn eich argymhelliad o ddim newid?

A: Os gwnânt hynny, byddai'n rhaid i ni ddod yn ôl yma i ymgynghori â chi. Os yw cynghorwyr yn mynd yn erbyn yr hyn a ddywedwch, gallwch apelio i LICC felly mae nifer o opsiynau eraill ar gael. Mae LICC yn rhoi pwysau arnom i leihau lleoedd gwag.

C: Mae'r ddwy ysgol yn cynhyrchu plant hapus a chytbwys.

C: Dim rheswm addysgol dros newid ond efallai bod cyfle i edrych ar beth ellir ei wneud gydag arian buddsoddi yn yr ysgolion.

Diolchodd DB i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r cyfarfod gan y cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

Wal bryderon/syniadau

- Cyfnod sylfaen – mabwysiadu cynnar ac wedi ei sefydlu'n dda
- Er bod rhai pryderon bychain ynglŷn ag adeiladau addas i'r pwrpas, mae ethos cadarnhaol iawn yn y ddwy ysgol ac fel rhiant teimlaf fod hyn yn llawer pwysicach na'r adeiladau.
- Fel y nodwyd, mae'r ddwy ysgol yn ardderchog. Nid yw'r gwariant fesul disgybl yn ymddangos yn uwch nag ysgolion eraill. Pam fod angen newid ysgolion sy'n cyflawni'n dda.
- Byddai cyfuno'r ddwy ysgol yn tynnu sylw oddi ar lwyddiannau yn y cyfnod sylfaen gan fod dull dysgu llawer mwy ffurfiol mewn ysgolion iau.
- Mae'r newid o'r babanod i'r iau (a reolir yn dda iawn yn T.Gwynn a Hen Golwyn) yn rhoi'r fantais i ddisgyblion wrth symud o CA2 i CA3.
- Nid oes gan ein hysgolion leoedd gwag – rhagamcanion disgyblion.
- Ysgolion ardderchog gyda safonau addysgol uchel iawn. Pe byddai cyfle ar gyfer gwella adnoddau byddwn o blaid.
- Dewis rhieni – ysgolion yn llawn
- Pa ymchwil / tystiolaeth sy'n cefnogi'r gostyngiad o flwyddyn 2 i flwyddyn 3?
- Safonau ardderchog, amrywiaeth o gyfleoedd addysgol, proffesiynoldeb staff
- Cau i agor ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach? Costio mwy? Cyfuno? - Hen Golwyn a T. Gwyn Jones yn dod yn brif ysgol ar gyfer yr ardal, nid yw'r safle mor dda ar gyfer parcio etc ffyrdd prysur gerllaw (?digon mawr), tywydd drwg yn effeithio ar deithiau i'r ysgol oherwydd yr elltydd.
- Safonau cryf – Estyn. Ardderchog felly pam newid? Adeiladau addas i'r pwrpas – pa ddarpariaethau a wneir?
- Nid yw cyfuno yn golygu ysgol dda – dim ymchwil i gefnogi hyn.
- Adroddiadau Estyn ardderchog
- Adeiladau – gwella safonau? (adeilad nid yr ysgol)

- Pam rydym yn flaenoriaeth? – adolygiad dechreuol.

- Ansawdd yr addysgu

- Byddai cael ysgol mor fawr yn cael effaith negyddol ar les cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion. Fel rhiant byddwn yn tynnu fy mhlant o'r ysgol, ac edrych am ysgol lai os byddant yn cael eu cyfuno.

- Croesawu addasu'r caeau chwarae ger T. Gwynn (cyfleuster pob tywydd os yw'n bosib)

- Mae'r ddwy ysgol mewn man canolog. Collir hyn os ydynt yn cael eu cyfuno gan nad oes safle canolog sy'n ddigon mawr ar gyfer ysgol fwy.

- Fy mhrif bryder yw maint yr ysgol a gyfunwyd. Ysgol Hen Golwyn yw'r ysgol gynradd fwyaf sy'n bwydo Bryn Elian, heb gyfuno.

- A wnewch chi fy sicrhau na wneir newidiadau dim ond er mwyn arbed arian. Mae T Gwynn Jones a Hen Golwyn yn ysgolion gwych sydd angen cymorth i ddatblygu eu cyfleusterau i gefnogi'r gwaith da a wnânt.